



Dyddiadau Rhagfyr

## RHAGFYR 5

**Gwasanaeth bore  
yng Nghartref Preswyl  
'Duffryn Ffrwd',  
Nantgarw am 10.30.**

(gadael iard ysgol  
Gwaelod-y-garth am 10.00)  
Dewch i ganu carolau yng  
nghwmni'r Cymry Cymraeg  
sydd yno.  
(dim oedfa yn yr hwyr)

~~~~

## RHAGFYR 12

**Gwasanaeth Nadolig y Plant  
am 10.30**

**Oedfa Cymun  
am 5.00 yr hwyr**

**yna  
Carolau o gwmpas y pentref  
(mae angen casglwyr a  
chantorion)**

~~~~

## RHAGFYR 19

**Gwasanaeth Naw Llith a  
Charol yn y bore  
(paned a mins peis wedyn)**

~~~~

## BORE NADOLIG

**Gwasanaeth Dydd Nadolig  
am 10.00**

~~~~

## RHAGFYR 26

**Oedfa dan ofal y Gweinidog  
10.30**

## Neges Alun

# Ein taith flynyddol ar fin dechrau

Rai dyddiau yn ôl roeddwn i'n gwranddo ar Barti'r Efail yn canu'n odidog un o hen garolau'r plygain, ac yn ennill, ar lwyfan yr Wyl Cerdd Dant. A dyma hi'n dymor y blygain eto.

Llynedd fe fethwyd â chynnal plygeiniau arferol Bethlehem a Bethel Caerffili oherwydd trwch o eira a hwnnw wedi rhewi. Gobeithio y cawn ni well lwc eleni. O'r Lladin *pulli cantus*, ar ganiad y ceiliog, sef ar doriad gwawr y daw'r gair 'plygain'. Mae'r oedfa yn estyniad o hen wasanaethau Pabyddol offeren canol nos. Dechrau'r addoliad yn nhywyllwch y nos a pharhau hyd doriad dydd; symud o dywyllwch i oleuni. Yn ddiweddarach o lawer y meddiannodd yr Ymneilltuwyr y traddodiad.

Nid rhyw '*jingle bells*' o garolau ydyn nhw. Fe gewch chi dalpiau o athrawiaeth yng ngeiriau carolau'r blygain. Mae'r sôn am yr atgyfodiad yr un mor amlwg â'r sôn am eni Crist. Un o garolau'r Pasg a ddewisodd Parti'r Efail er enghraifft a chanu am ryfeddod aberth Crist ar y groes. Rhyfeddod arall yw'r patrwm odlau. Ystyriwch hon:

*Bugeiliaid o'r meysydd a aent i dref Dafydd  
Cyn dwedyd y dedwydd wir newydd i neb.  
Caent Joseff heb gysgu, a Mair heb un gwely  
Yn ym'gleddu'n pur Iesu'n y preseb.*

Mae'n taith flynyddol ninnau i Fethlehem ar fin dechrau. Hanfod y bererindod yw paratoi; paratoi ar gyfer dyfodiad Iesu. Na feindiwch ddyweddiad diweddar 'Big Willie' (fel Paul Merton fe roddwn innau £8 miliwn, 'tae o gen i, i gael "symud ymlaen"). Mae Tywysog arall yn mynd â'n bryd, a hwnnw'n dywysog tangnefedd. Nadolig llawen i chi.

**R Alun**

**IONAWR 9 2011**

**Cymun Cynta'r Flwyddyn am 10.30**

*Cofiwch am*

**Y PLYGAIN**

**4.30 y pnawn (ac un arall yng Nghaerffili am 6.30)**

# "Aelodau'r Eglwys"

[Sylwadau ddyfynnwyd gan Rhodri-Gwynn Jones wrth wahodd cyd-aelodau Bethlehem i ystyried eu cyfrifoldebau os daw achos i godi diaconiaid ychwanegol neu wirfoddoli fel ysgrifennydd y capel - pan fydd Rhys Dafis yn ymadael am y gogledd a dwy ddiacones yn rhoi'r gorau iddi].

- Mae yna **560** aelod yn ein heglwys (ddychmygol – nid Bethlehem!).
- Ond mae **100** ohonynt yn eiddil a hen, felly dyna adael 460 i wneud y gwaith.
- Ond mae **74** o'r rhain yn bobl ifainc mewn colegau. Gedy hyn **386** i wneud y gwaith i gyd.
- Ond mae **150** ohonynt wedi blino oherwydd eu hymrwymiad i'w gwaith, felly dyna adael **236** i wneud y gwaith.
- O'r rhain mae **150** yn famau gyda phlant bach, sy'n gadael **86**.
- Mae **46** o'r rhain â diddordebau arbennig, gan adael **40** i wneud yr holl waith.
- Ond mae **15** ohonynt yn byw yn rhy bell i ddod yn gyson, felly dyna adael **25** i wneud y gwaith i gyd.
- Dywed **23** o'r gweddill yma eu bod wedi gwneud eu siâr, felly dyna adael **Ti a Fi**.
- Rwyf **Ei** wedi llwyr ymlâdd.
- Felly pob lwc i **Ti!**

## Newyddion o'r Gwaelod

Da gweld bod 'Pwt', un o'n Trysoryddion, **Peredur Evans**, ar ei ddwy droed unwaith eto ar ôl ei anhap ar daith gerdded yn ddiweddar. Cafodd ei gludo i'r ysbyty mewn hofrennydd -na, nid gan Y Tywysog William yn anffodus, oherwydd i'r anffawd ddigwydd ym Mro Morgannwg, ymhell o gyrraedd patsh y darpar frenin!)

**Alun yn ymddeol** – na nid fel ein bugail! Wrth iddo roi'r gorau i fod yn arweinydd llwyfan Yr Ŵyl Gerdd Dant ar ôl dros 30 mlynedd, dyma'r englyn (o eiddo Ieuan Wyn) gyflwynwyd iddo yng Ngŵyl Glannau Menai:

*Cennad ein traddodiadau – a'i Gymraeg  
mor rhywydd o'n llwyfannau  
Ag Alun yn ein Gwyliau  
Mae mwy o'naws i'r mwynhau.*

## **Cyfeiriadau:**

**Gweinidog:** Y Parchedig Ddr R. Alun Evans, Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2BW  
**Ffôn:** 02920 520 854  
**e-bost:** [ralun.evans@virgin.net](mailto:ralun.evans@virgin.net)  
**Ysgrifennydd Bethlehem:** Rhys Dafis  
**Ffôn:** 029 20 89 13 60  
**e-bost:** [rhydafis@aim.com](mailto:rhydafis@aim.com)

## **Dathlu'r Diolchgarwch...**



*(chwith) Os nag oeddech chi yng Ngwasanaeth Diolchgarwch plant yr Ysgol Sul, holwch nhw pam fod Rhys Powys yn bwyta bwyd ci.*

*Isod, fe welwch y rhai ieuengaf fu'n cymryd rhan yn yr oedfa – yn awchu am fynd adref am eu cinio ar ôl i fab y bugail actio ci defaid a chodi chwant bwyd arnyn nhw!*



## **Suliau:**

### **Rhagfyr – Mawrth**

#### **RHAGFYR 2010**

- 5** Cartref Henoed – Dyffryn Ffrwd
- 12** Gwasanaeth Nadolig y Plant (**bore**)  
Y Parch. R Alun Evans (**Cymun**) (**5.00** pm)  
(Yna - Canu carolau o gwmpas y pentref)
- 19** Naw lliith a charol
- 25** Gwasanaeth bore'r Nadolig (**10.00**)
- 26** Y Parch. R Alun Evans

#### **2011 -IONAWR**

- 2** Y Parch. Aled Edwards
- 9** Y Parch. R Alun Evans (**Cymun**)  
Plygain am **4.30** y pnaun
- 16** Y Parch. Robin Samuel
- 23** Y Parch. R Alun Evans
- 30** Y Parch. Gareth Reynolds

#### **CHWEFROR**

- 6** Y Parch. D Haydn Thomas
- 13** Y Parch R Alun Evans (**Cymun**)
- 20** Y Parch. Dafydd Owen
- 27** Y Parch R Alun Evans

#### **MAWRTH**

- 1** Oedfa Dewi Sant (am 9:00 a.m.)
- 6** Gwasanaeth Gŵyl Dewi
- 13** Y Parch. R Alun Evans (**Cymun**)
- 20** Y Parch. Ieuan Davies
- 27** Y Parch R Alun Evans

## **Llongyfarchiadau i...**

**Manon Hefin Mathias** sydd wedi dyweddio â Dr Lewis Allan. Mae Manon yn darlithio mewn Ffrangeg yng Ngholeg Worcester, Rhydychen a Lewis yn gweithio yn y Swyddfa Dramor.


## **Anfonwn ein cofion ....**

at **Ann Beech**, **Ffynnon Tâf**, ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg, Llantrisant. Ac mae angen ei chyfarach hefyd ar ddod yn hen fam-gu. Ganwyd mab, **Rowan David**, i Bethan ei hwyres yn ardal Aberdâr, (er fod Bethan yn dal i fynychu oedfaon Bethlehem).

## **I'r Dyddiadur:**

- **Dathlu Gŵyl Dewi** – ar fore Sul **Chwefror 27** – Cawl, bara a chaws, pice wedi'r oedfa.
- **Mai 13** – Cyngerdd – Côr y Mochyn Du a Chôr Ysgol Gwaelod-y-garth
- **Mai 22** – Taith Noddedig – o gwmpas Parc y Rhath - a phicnic
- **Gorffennaf 10** - Swper Haf

# Pedair Priodas...



(uchod chwith) Llongyfarchiadau i Geraint Rhodri mab Peter a Stella Jones, Yr Eglwys Newydd, ar ei briodas â Hannah Elizabeth Beck o Twyford, Reading. Mae'r pâr wedi ymgartrefu yng Ngogledd Llandaf. Pob hapusrwydd i chi'ch dau.



(Dde uchod ) Ar y 5ed o Dachwedd ym mhentref Portmeirion. priodwyd Sian Beca, merch Byron a Morwen Edwards, Creigiau â Martin Tomos. Mae Martin yn wreiddiol o Ddeiniolen ac mae'r cwpwl wedi ymgartrefu ym Mhorthaethwy. Fel Sian, mae Martin hefyd yn y byd actio. Haul ar y fodrwy!



(Chwith). Ar Fedi 11, gyda'r Gweinidog yn gweinyddu, priodwyd Anna Gwyn Jones, merch Marian a Dilwyn Jones, Creigiau, â Stuart Townson ym Methlehem, Gwaelod y Garth. Mae Anna'n gweithio i gwmni Teledu Rondo yng Nghaerdydd, ac mae Stuart yn Bennaeth Adnoddau Dynol, Cwmni Ford, Pen y Bont. Dymuniadau gorau i'r ddau.



Llongyfarchiadau i Carys, merch Rhian a Dafydd Huws, Ffwernes Blwm, ar ei phriodas â Rhodri Gomer Davies, ym Methlehem ar Hydref 29 â'r gweinidog yn gweinyddu. Mae Carys yn athrawes yn Ysgol y Wern, a Rhodri, sy'n dod o Ffarmers yn wreiddiol, yn ganolwr gyda thîm rygbi Dreigiau Gwent. Maen nhw'n byw yn Clodien Avenue, y Waun Ddyfal..

## Y CWRDD MERCHED



Yng nghyfarfod cyntaf tymor newydd y Cwrdd Merched, ein siaradwraig wadd oedd Mary Wiliam, (chwith uchod) yn trafod tafodiaith, idiomaau ac ymadroddion Cymoedd De Cymru. Cafwyd orig ddifyr yn ei chwmmi, a thipyn o drafodaeth ar ddiwedd y cyfarfod. Cymerwyd at y rhannau defosiynol gan Gwenan Richards a Margaret Roberts.

**Cydymdeimlwn** â David Clement a'r teulu, Ffynnon Tâf. Bu farw mam David, Mrs Dorcas Clement yn 92 mlwydd oed, yn Ystradgynlais yn wythnos olaf mis Tachwedd a'r angladd yn Nhreforys ar Ragfyr 3ydd.

## Te i'r Digartref yn Y Tabernacl, Caerdydd

Aelodau Bethlehem sydd yn gyfrifol am y Suliau canlynol:-

**12.12.10**

**27.2.11**

**15.5.11**

Bydd Gwenno yn falch iawn o glywed oddi wrth unrhyw un sy'n cynnig enw i'r "banc?":

029 20224087

neu [hughes\\_alun@sky.com](mailto:hughes_alun@sky.com)

## Stondin Gacennau

*Fel y gwyddoch mae Stondin Gacennau yn y Ffestri ar fore Sul y Cymun. Gofynnwn yn garedig i bob ardal gymryd tro i gynnal y Stondin fel a ganlyn: -*

Rhagfyr 12 (hwyr)	Radur a Dwyrain Caerdydd
Ionawr 9fed	Gorllewin Caerdydd
Chwefror 13eg	Yr Eglwys Newydd
Mawrth 13eg	Gwaelod-y-garth a Ffynnon Taf
Ebrill 10fed	Creigiau a Phentyrch
Mai 8fed	Radur a Dwyrain Caerdydd
Mehefin 12	Gorllewin Caerdydd

Os nad oes awydd coginio arnoch, hwyrach yr hoffech roi cyfraniad. Mae'r holl arian a wneir ar y Stondin yn mynd tuag at Yr Ystafell Fyw, ein helusen am 2010 - 11.

## Wynford ar Fwrdd Cynghori byd-eang

Efallai bydd rhai ohonoch wedi darllen eisoes yn "Y Tyst" bod Wynford Ellis Owen, Creigiau, sydd newydd ddychwelyd o America, wedi ei ddewis yn un o bedwar aelod newydd i wrdd ymgynghorol *Wired In* (cymdeithas 'Wired In To Recovery', sef menter unigryw a ddatblygwyd ddeng mlynedd yn ôl fel dull o arfogi pobl i stopio camddefnyddio sylweddau. Mae *Wired In* ([www.wiredin.org.uk](http://www.wiredin.org.uk)) yn cynnig gwybodaeth a dulliau sy'n rhoi cymorth i bobl ddeall a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i oresgyn eu problemau sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau ganddyn nhw, neu rywun sy'n agos atynt. Mae hefyd yn datblygu cymdeithasau gwellhad ar-lein ac yn y byd go iawn drwy roi cymorth i bobl gymryd y camau cyntaf tuag at wella, derbyn a rhoi cefnogaeth ynghyd â chynnig fforwm i hybu gwellhad.

Meddai'r Athro David Clark, "Mae Wynford wedi cyfrannu'n helaeth i'r maes cam-drin sylweddau ac rwy'n sicr y bydd ei farn o fudd mawr i *Wired In* a'n cymdeithas gwellhad. Fe hoffwn i a fy nghydweithwyr yn *Wired In* ddiolch yn fawr i Wynford am ymuno â'r tîm."

Enillodd Wynford Gymrodoriaeth Ymddiriedolaeth Coffa Winston Churchill am 2010 ac mae newydd ddychwelyd o fod yn ymweld â rhai o ganolfannau gwellhad cymunedol newydd yn America sy'n cynnig cymorth i bobl sydd â phroblemau alcohol neu gyffuriau sylweddol.

Meddai Wynford, "Rwy'n frwdfrydig iawn dros y modd y mae dulliau adfer yn datblygu ac rwy'n falch iawn o allu chwarae fy rhan i yng nghymuned gwellhad ar-lein *Wired In*. Rwy'n gobeithio y byddaf yn gallu dod â phobl ynghyd i ddal dwylo a dod yn rhan o rwydwaith gwella byd-eang. Mae'n bwysig i ni newid o'r dull gofal llym o driniaethau sydd ddim yn llwyddiannus iawn, i ddull sy'n cynnig y nod o wellhad fel blaenoriaeth.

"Mae fy nhaith i America hefyd wedi rhoi llawer o syniadau newydd a chwyldroadol i mi fydd yn cryfhau prosiect Yr Ystafell Fyw Caerdydd, sef yr elusen mae eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-Garth yn ei chefnogi am 2010. Bydd rhan gyntaf y prosiect yn agor ym mis Mehefin 2011."

Mae cyfrol ddiweddaraf Wynford, *No Room to Live*, sef hunangofiant a llyfr cymorth yn y Saesneg yn cynnig llwybr positif allan o uffern dibyniaeth wedi ei adrodd drwy brofiadau a meddyliau personol. Mae'r holl elw o werthiant y gyfrol yn mynd tuag at sefydlu Yr Ystafell Fyw Caerdydd.

Wynford yw Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a chyffuriau Eraill. (Yn y *llun mae'n sefyll ger y "Liberty Bell" yn Philadelphia*).

